Iesu, nid oes terfyn arnat

Caneuon Ffydd: Rhif 321

Iesu, nid oes terfyn arnat,
mae cyflawnder maith dy ras
yn fwy helaeth, yn fwy dwfwn
ganwaith nag yw 'mhechod cas:
fyth yn annwyl
meibion dynion mwy a'th gâr.

Mae angylion yn cael bywyd
yn dy ddwyfol nefol hedd,
ac yn sugno'u holl bleserau
oddi wrth olwg ar dy wedd;
byd o heddwch
yw cael aros yn dy ŵydd.

Ti faddeuaist fil o feiau
i'r pechadur gwaetha'i ryw;
Arglwydd, maddau eto i minnau –
ar faddeuant 'rwyf yn byw:
d'unig haeddiant
yw 'ngorfoledd i a'm grym.

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

Oes yna fawr ryfedd bod William Williams wedi ei alw 'Y Pêr Ganiedydd', a bod cymaint o fri wedi bod ar ei emynau ers dros ddau gant a hanner o flynyddoedd bellach? Fe gafodd y fraint o fod yn ganiedydd i'w bobl ac fe gyfansoddodd filoedd o emynau, pob un ohonyn nhw'n canolbwyntio ar Iesu Grist. O ble cafodd y fath awen? Y fath storfa o drysor i'w rhannu â ni? Allwn ni ddim peidio â gweld ôl yr Ysbryd Glân ar waith yn ei emynau, yn codi Iesu Grist i fyny yn ei olwg ef ac yng ngolwg y rhai fu'n defnyddio'r emynau. Dyna waith yr Ysbryd Glân, nid dwyn sylw ato ef ei hun, nac at un dyn byw, ond at Iesu Grist ei hun: 'Iesu, nid oes terfyn

arnat', meddai, nid oes neb all beri iddo dewi â sôn amdano. Gallai ef ddweud gyda'r apostol Paul: 'Oherwydd, i mi, Crist yw byw, ac elw yw marw' (Phil. 1:21).

Wedi rhoi mawl i'r un sydd â'i ras ganwaith yn fwy helaeth a dwfn 'nag yw 'mhechod cas' fe sonnir yn y pennill olaf amdano'n maddau mil o feiau 'i'r pechadur gwaetha'i ryw'. Nid oes fawr o ots am y cyfrif ble mae gras ein Harglwydd Iesu Grist o dan sylw. Gofynnodd Pedr unwaith i Iesu: '"Arglwydd, pa sawl gwaith y mae fy nghyfaill i bechu yn fy erbyn a minnau i faddau iddo? Ai hyd seithwaith?"' (Mth. 18:21) Byddai ffigwr felly yn profi gras unrhyw berson. Ond dydy Iesu ddim am inni roi terfynau ar ein maddeuant, ac fe grafwn ein pennau i geisio cofio ein tabl saith a swm saith gwaith saith deg, sef 490! Tipyn mwy na chynnig cyntaf Pedr! Cawn ddameg gan Iesu wedyn i egluro'r pwynt – dameg y gwas anfaddeugar, sy'n ehangu'n dealltwriaeth ni o faddeuant Duw yn fawr iawn. Dylai'r rhai sydd wedi derbyn maddeuant mor helaeth fod yn barod i estyn y maddeuant hwnnw i eraill hefyd. Mae bod yn anfaddeugar yn ein cau allan o freintiau Teyrnas Dduw. Cawn ein hannog yng Ngweddi'r Arglwydd (Mathew 6) i fod 'wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn' cyn y gallwn ni ofyn i Dduw faddau i ni. Mae maddeuant i fod yn rhan hanfodol o'n bywyd, 'ar faddeuant 'rwyf yn byw', meddai Williams, ac mae'r maddeuant hwnnw yr un mor hanfodol â'n bara beunyddiol i ni. Efallai fod gennym bob hawl i ddal dig yn erbyn rhywun ac i'w gasáu, ond os ydym am fod yn ddinasyddion Teyrnas Nef ac am weld Duw ar waith yn ein bywydau ni, a'i rym yn llifo trwom, yna mae hi'n gwbl hanfodol ein bod yn maddau am mai 'ar faddeuant 'rwyf yn byw'.

GWEDDI

O Dad graslon a maddeugar, diolch iti am faddau 'mhechodau. Diolch iti am Iesu sy'n cynnig dy faddeuant inni oherwydd ei aberth dros bechod ar y groes. Helpa fi i sylweddoli'r pris a delaist ti am y maddeuant hwn i mi a helpa fi i beidio â dal fy maddeuant i yn ôl rhag unrhyw un sydd wedi troseddu i'm herbyn, ond i'w gynnig yn hael a derbyn wedyn o'th faddeuant di dy hun. Yn enw Iesu Grist. Amen.